CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Rhagfyr 10, 2019 am 7.30 o'r gloch.

www.cyngorllanelltyd.cymru

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau: Llinos Williams.

2. Datgan diddordeb:

Mae Geraint Rowlands a Llinos Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 8.a.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 12, 2019

4. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 12, 2019

Eitem 11.c. ac Eitem 4. . Eitem 11.a. Derbyniwyd galwad ffôn (11/11/2019) oddi wrth Mr Ieuan Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2DW. 0300 0653 768). Roedd yn ymddiheuro am beidio cysylltu â ni; nid oedd wedi cael ein llythyr mewn pryd; roedd ein llythyr wedi ei anfon i swyddfa yn Dolgellau. Dwedodd does dim i'w adrodd oherwydd mae'r mater yn un cyfreithiol.

Eitem 9.a. Llythyr ateb (19/11/2019) yn rhoi gwybod ni fydd Swyddog o'r Adran yn bresennol yn ein cyfarfod ond yn fodlon dod yn y flwyddyn newydd. Mae'r Swyddog yn y broses o gasglu gwybodaeth ar gostau a dyletswyddau gyda'r bwriad o anfon hwy ymlaen atom dechrau Rhagfyr i ni ystyried y mater ymhellach.

Eitem 11.b. Llythyr (25/11/2019) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri angen manylion Mr Causer a chopi o'r pris cafwyd gan Gwasanaeth Tir a Choed i wneud y gwaith clirio.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/11/2019) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2020 / 2021. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 24, 2020.

Praesept 2018 /2019 - £7,500.00. Praesept 2019 /2020 - £7,500.00.

b. Llythyr (26/11/2019) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137. Y terfyn ar gyfer 2020-21. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 o dan adran 137(1) ac (3) £8.32, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.32 x 386 = £3,211.52.

c. Siec (27/11/2019) am £600 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab. Taliad at Mair Jones, claddedigaeth bellach.

dd. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd 2019: £10,605.20.

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

1. NP5/65/L359. Trosi capel yn annedd preswyl marchnad agored. Capel Coffa, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (22/11/2019).

2. NP5/65/AD363. Gosod panel dehongli 1.1m x 0.9m. Coed Garth Gell, Bontddu.

b. Llythyr (22/11/2019) yn ymwneud â Tai Teg – Cofrestr Tai Fforddiadwy. Cofrestr tai fforddiadwy ar-lein yw Tai Teg sy'n cynnig cartref fforddiadwy i bobl leol am bris llai na gwerth y farchnad. Nod y gofrestr yw casglu gwybodaeth am eiddo fforddiadwy yng ngogledd Cymru. Mae'r wybodaeth i'r cyhoedd ar www.taiteg.org.uk Yn amgaeedig mae taflennau yn rhoi gwahanol gynlluniau sydd ar gael.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (26/11/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn holi os oes biniau halen angen eu llenwi.

b. Llythyr (25/11/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith tyllu a newid colofnau stryd ar y ffordd A496 yn Bontddu.

c. Llythyr (3/12/2019) oddi wrth Elfed ap Gomer yn rhoi gwybod mae Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn trefnu sgubo ffyrdd Cwm Mynach a Moel Ispri.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

11. Materion Brys

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg. Anfonwyd copi i'r aelodau.

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc